OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 684

## Rheoliadau Iechyd a Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

**Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007**

**3.**—(1) Mae Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 2, hepgorer paragraff (5).

(3) Yn lle erthygl 20 rhodder—

"**Yr awdurdod cymwys**

**20.** Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1255/97 a Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005."

(4) Yn erthygl 22—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Gweinidogion Cymru"; ym mharagraff (3)(c), yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Weinidogion Cymru"; ac ym mharagraff (5), yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Gweinidogion Cymru";

(b) ym mharagraff (2)(a), yn lle "fo'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn" rhodder "fo Gweinidogion Cymru o'r farn";

(c) ym mharagraff (4)—

(i) yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol", yn y lle cyntaf y mae'n digwydd, rhodder "Weinidogion Cymru";

(ii) yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu" rhodder "Gweinidogion Cymru yn penderfynu".

(5) Yn erthygl 23—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Weinidogion Cymru", ac ym mharagraff (3), yn lle "i'r Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "i Weinidogion Cymru";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Gweinidogion Cymru";

(c) ym mharagraff (4)—

(i) yn lle "i'r Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "i Weinidogion Cymru";

(ii) yn lle "o'i benderfyniad terfynol a'i resymau" rhodder "o'u penderfyniad terfynol a'u rhesymau".

(6) Yn erthyglau 24(9) a 29(2), yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "Weinidogion Cymru"; ac yn erthyglau 26(1)(a) a 27(b), yn lle "y Cynulliad Cenedlaethol" rhodder "Gweinidogion Cymru".

(**1**) O.S. 2007/1047 (Cy. 105).